

Cynulliad ar yr Hinsawdd Ysgolion Dyffryn Peris



CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION



CEFNDIR

Mae GwyrddNi yn fudiad gweithredu ar newid hinsawdd sydd wedi ei leoli yn y gymuned ac yn cael ei arwain gan y gymuned. Mae'n dod â phobl ynghyd mewn pum ardal yng Ngwynedd i drafod, dysgu a gweithredu yn lleol ar newid hinsawdd.

Er mwyn canfod mwy am GwyrddNi ewch i'n gwefan:

<https://www.gwyrddni.cymru/>

Fel rhan o'r gwaith hwn mae GwyrddNi wedi bod yn cydweithio ag ysgolion ardaloedd GwyrddNi i gynnal rhaglen addysg i gyd fynd ag ethos a thema'r gwaith yn y gymuned.

Yn ardal Dyffryn Peris rydym wedi bod yn gweithio gydag Ysgol Brynrefail, Ysgol Dolbadarn, ac Ysgol Bethel.

Mae'r rhaglen addysg wedi ei ddylunio gyda chwe chymal:

- Gweithdy yn yr ysgol am Newid Hinsawdd
- Cylchdaith o amgylch y gymuned i brofi rhai o'r datrysiadau hinsawdd sydd ar y gweill yn lleol
- Cynulliad ar yr Hinsawdd
- Cyflwyno canfyddiadau'r Cynulliad Ysgolion i'r Cynulliad Cymunedol
- Gweithredu ar yr hinsawdd
- Dathliad o'r hyn sydd wedi ei gyflawni

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion sy'n rhan o'r cynllun am eu cydweithrediad brwd.

GWEITHDY

Yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2022 buom yn cynnal gweithdy am Newid Hinsawdd gydag ysgolion Brynrefail, Dolbadarn, a Bethel.

Nod y gweithdy oedd sicrhau ein bod ni'n:

- Sylwi ar wahanol elfennau o'n cymunedau a sut maent yn gysylltiedig
- Deall beth oedd yr effaith tŷ gwydr
- Deall y cylch carbon
- Deall sut mae llosgi tanwydd ffosil a pheidio edrych ar ôl y byd naturiol yn cynyddu'r effaith tŷ gwydr a thrwy hynny yn achosi cynhesu byd eang.

- Deall mae cynhesu byd eang sy'n achosi'r newid hinsawdd rydym yn ei brofi ar hyn o bryd.
- Ystyried sut mae newid hinsawdd yn effeithio pobl o amgylch y byd gan gynnwys ni yma yng Nghymru.
- Deall byddai canfod ffyrdd o fyw sy'n golygu nad ydym yn llosgi tanwydd ffosil ac yn golygu ein bod yn edrych ar ôl byd naturiol yn gwneud cyfraniad mawr at arafu a lleihau effeithiau newid hinsawdd ar ein cymunedau.
- Teimlo'n gyfforddus yn trafod teimladau ynghylch newid hinsawdd a sylwi fod posib trosi teimladau negatïf yn rai positif wrth weithredu.

Dyma rhai lluniau o'r gweithdai ar draws ardaloedd GwyrddNi.



CYLCHDAITH

Yn ystod tymor yr hydref 2022 bu cyfle i blant a phobl ifanc GwyrddNi profi rhai o'r datrysiadau hinsawdd sydd eisoes ar y gweill yn ein cymunedau.

Nod y cylchdeithiau oedd sylwi:

- Ei fod yn bosib ymateb i'r argyfwng hinsawdd.
- Ei fod yn bosib ymateb i'r argyfwng hinsawdd yma yn Nyffryn Ogwen a chael blas ar yr ymatebion sydd wedi eu datblygu hyd yma.
- Nad oes un datrysiad i'r argyfwng hinsawdd ond yn hytrach amryw helaeth o ddatrysiadau.
- Bod ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn gymunedol hefyd yn cyfrannu nifer o fuddion eraill i ni fel unigolion ac i'n cymunedau.

Yn Nyffryn Peris buom yn ymweld neu gymryd rhan mewn gweithdy gyda:

- Tyddyn Teg
- Open Energy Monitor
- Ynni Padarn Peris
- Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru
- Car trydan cymunedol DEG
- Rhandiroedd/Grwp Cymunedol Brynrefail

Diolch yn fawr iawn i'r holl staff a gwirfoddolwyr y mudiadau hyn am gynnal gweithgareddau ac am sicrhau llwyddiant y gylchdaith. Diolch hefyd i Elusen Dyffryn Peris (sy'n dyrannu elw cynllun Hydro Afon Goch) am eu cyfraniad tuag at gostau'r diwrnod.





CYNULLIAD

Cynhaliwyd Cynulliad Ysgolion Dyffryn Peris yn Ysgol Brynrefail ar y 15ed o Dachwedd 2022.

Mynychwyd gan 50 o blant a phobl ifanc o Ysgol Brynrefail, Ysgol Dolbadarn, ac Ysgol Bethel.

Nod y cynulliad oedd:

- Ystyried a nodi beth sy'n bwysig inni yn ein cymunedau.
- Gweledigaethu dyfodol lle'r rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd.
- Datblygu syniadau bydd yn ein helpu cyrraedd y dyfodol yna.

Gwnaethom hyn drwy:

- Fel unigolion, meddwl am a thynnu llun y llefydd yn ein cymuned sydd fwyaf pwysig i ni a'u gosod ar fap o'r dyffryn.
- Fel unigolion, dychmygu dyfodol lle'r rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd. Rhannu hyn efo'n grŵp er mwyn canfod elfennau o'r weledigaeth oedd gennym mewn cyffredin â gweddill y grŵp. Rhannu'r rhain a'u cofnodi gyda gweddill y Cynulliad fel bod modd creu darlun ar y cyd o'r dyfodol rydym yn ei ddymuno.
- Fel grŵp gweithio ar ddatblygu syniadau fydd yn ein helpu i sicrhau fod elfen benodol o'r weledigaeth yn dod yn wir a'u cofnodi ar pro forma arbennig.



Hoffwn ddiolch i Ysgol Brynrefail am gynnal y Cynulliad.

CANFYDDIADAU'R CYNULLIAD

Dyma ganfyddiadau Cynulliad Ysgolion Dyffryn Peris.

Y pethau yn ein cymunedau sy'n bwysig i ni:

Rhain ydy'r pethau rydym eisiau eu cadw wrth inni ymateb i her yr hinsawdd yn ein cymunedau. Yn ogystal, gallai'r pethau yma ein helpu i symud i'r math o dyfodol rydym yn ei ddymuno.



Parc Penisarwaun
 Cae builders
 Parc Bethel
 Parc Dol Elidir
 Neuadd Goffa Bethel
 Mynwent Llanbeblig
 Elidir fawr
 Chwarel Dinorwig
 Afon Nant Peris
 Coed Fictoria
 Castell Dolbadarn
 Cae Peldroed
 Llanberis
 Cae Rygbi Llanrug
 Y Ffestri
 Y Mynyddoedd
 Llyn Padarn
 Becws Cwm y Glo
 (wedi mynd erbyn hyn)
 Ty Nain

Ein gwledigaeth o'n cymuned yn 2040:

Dyma fydd ein cymuned pan fyddwn wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd.



Byd natur wedi gwella

Yr argyfwng amgylchedd wedi datrys a fydd y byd yn troi yn iach un cam ar y tro

Syllu ar y ser sgleiniog a gwrando ar synnau'r nos

Llai o ryfeloedd

Mwy o ddistawrwydd

Mwy o gymorth

Mwy o bobl ffeind

Amddiffyn llynnoedd

Tŷ modern trydan

Tyrbinau gwynt

Paneli solar

Dim llosgi tanwydd ffosil

Mwy o anifeiliaid gwyllt

Robots sy'n reidio beic i greu trydan

Mwy o bobl yn creu celf

Ysgol y tu allan

Dod i adnabod cynefinoedd mwy o anifeiliaid a deall y ffordd mae nhw'n byw

Mwy o bobl yn creu pethau'n lleol a dim prynnu petha o bell

Dim lot o geir

Mwy o bysiau

Mwy o gerdded a beicio

Anifeiliaid wedi dod yn ol o ddiffodiant.

Ein syniadau gweithredu bydd yn ein helpu cyrraedd y dyfodol uchod:

Tyrbinau gwynt

Ffermydd a thai solar

Fferm solar mawr

Marchnad cynnyrch lleol yn hen adeilad mynydd gwefru

Amddiffyn coed ar tir fferm

Garddio bwyd a tyfu mwy

Bendy Bus trydan

Creu storïau ynglyn a'r gymuned

Canolfan / ardal hamdden enfawr

Y Cyngor i brynu tractor trydan i ffermwyr


Rhoi hadau i ffermwyr lleol

Hadau i bawb

Plannu a thyfu planhigion gwyllt

Y lon fawr i bawb – lle i beics, sgwters, cerddwyr

Dosbarth awyr agored – gawn ni adeiladu fo a dysgu am natur



CYFLWYNO I'R CYNULLIAD CYMUNEDOL

Cyflwynwyd canfyddiadau'r Cynulliad Ysgolion i Gynulliad Cymunedol Dyffryn Peris ar yr 23ain o Dachwedd 2022 gan Millie ac Ayra o Ysgol Brynrefail, Ynyr o Ysgol Dolbadarn a Kyla o Ysgol Bethel.



Roedd y Cynulliad yn falch iawn o glywed barn, dyheadau a syniadau'r plant a phobl ifanc.

"Rili wedi wedi fy ysbrydoli ac actually oni'n teimlo eitha lot o gyfrifoldeb deud y gwir achos hein ydi y dyfodol a ma nhw mor, ma nhw'n poeni dwi'n meddwl, dyna odd yr argraff oni'n gael, ma nhw'n poeni, ma nhw'n rili caru'r ardal ma nhw'n byw ynddo fo a ma nhw rili isho gweld newidiadau positif sy'n mynd i olygu dyfodol gwell iddyn nhw so oni'n teimlo lot o gyfrifoldeb ond hefyd lot o ysbrydoliaeth achos naethon nhw ddod allan efo lot o syniadau difyr" - Gwenno, Cynulliad Dyffryn Peris

'Pleser mawr odd bod rhan o'r noson wrth i'r plant gyflwyno i'r cynulliad. Roedd yn noson emosiynol ofnadwy. Mae gweld plant ysgol yn rhannu yr un angerdd a theimlad a thi at yr ardal yn bwerus iawn. Be sy'n arbennig am y plant ydy eu gallu i ddychmygu mewn ffyrdd mae oedolion wedi anghofio sut i wneud - syniadau dirif, uchelgeisiol ag jest chwedlonol. Un o brofiadau gorau fy mywyd' - Phil, Cydlynnydd Cyd Ynni

Defnyddiwyd syniadau'r plant a phobl ifanc fel sail i ddatblygu syniadau'r Cynulliad i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Hinsawdd Dyffryn Peris yn ystod y Cynulliad Cymunedol.

CAMAU NESAF

Bydd plant a phobl ifanc, ac ysgolion GwyrddNi yn edrych ymlaen at weld sut fydd syniadau'r plant yn chwarae rhan wrth i'r Cynulliad datblygu cynllun gweithredu hinsawdd ar gyfer y Dyffryn.

Yn ogystal byddwn yn mynd ati i weithredu cymalau olaf y rhaglen addysg sef gweithredu ar yr hinsawdd a dathlu'r hyn sydd wedi ei gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf.

Bydd modd i chi gadw golwg ar y datblygiadau hyn ar [safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol](#) GwyrddNi.

